Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

# Ystadegau Medr

## Addysg bellach, prentisiaethau a dysgu cymunedol, Awst 2024 i Orffennaf 2025

**Cyfeirnod:** Sta/Medr/04/2026

**Dyddiad:** 26 Chwefror 2026

**Dynodiad:** Ystadegau Swyddogol (gweler y newid i statws ystadegau achrededig)

**E-bost:** ystadegau@medr.cymru


**Crynodeb:** Ystadegau ar nifer y dysgwyr, y rhaglenni a'r gweithgareddau a gyflawnir mewn colegau, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a darpariaeth dysgu cymunedol awdurdodau lleol.


**Thema:** Addysg bellach, prentisiaethau, dysgu cymunedol

**Ffynhonnell:** Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR)


Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Contents

Crynodeb....2
Prif bwyntiau....2
Nodyn....2
Dysgwyr....3
Math o ddysgu a wnaed....6
Cyfrwng Cymraeg....12
Demograffeg....14
Oedran....14
Rhywedd....15
Cefndir ethnig....16
Amddifadedd....17
Anhawster neu amhariad dysgu....18
Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg....19
Yr hyn sydd wedi newid....19
Cyfrif dysgwyr....19
StatsCymru....19
Data dros dro ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol....20
Niferoedd rhaglenni rhan-amser....20
Mathau eraill o ddysgu seiliedig ar waith....20
Data newydd....20
Gwella ystadegau dysgu cymunedol awdurdod lleol....21
Datganiad Cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau....22
Newid statws ystadegau achrededig....22
Ystadegau cysylltiedig....23
Y diweddariad nesaf....23
Gwybodaeth gyswllt....23

## Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi rhai o'r tueddiadau allweddol mewn addysg bellach, prentisiaethau, a dysgu cymunedol awdurdod lleol yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25.

Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth dros dro am ddysgwyr a rhaglenni addysg bellach amser llawn ar gyfer chwarter cyntaf (Awst i Hydref) 2025/26.

### Prif bwyntiau

- Roedd 161,920 o ddysgwyr mewn addysg bellach, prentisiaethau neu dysgu cymunedol awdurdod lleol yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25.
- Cynyddodd nifer y dysgwyr addysg bellach amser llawn i lefel uwch nag erioed.
- Mae data dros dro ar gyfer chwarter cyntaf 2025/26 yn dangos bod y duedd o gynnydd wedi parhau.
- Mae nifer y dysgwyr rhan-amser wedi lleihau, am y tro cyntaf ers 4 blynedd.
- Roedd nifer y prentisiaethau a ddechreuwyd ar y lefel isaf ers i'r ystadegau hyn ddechrau.
- Mae'r niferoedd ar gyfer dysgu cymunedol awdurdod lleol yn uwch nag yr oeddent cyn y pandemig.
- Mae addysg bellach amser llawn lefel 2 wedi bod yn cynyddu'n gyson.
- Mae nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n ymgymryd â gweithgareddau sy'n cynnwys 'cryn dipyn' o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu.
- Mae dysgwyr sy'n dilyn cwrs addysg bellach, prentisiaeth, a dysgu cymunedol yn fwy tebygol o fyw mewn cymdogaethau amddifadus.
- Mae gan 1 o bob 6 dysgwr anhawster dysgu neu anabledd, sef y mwyaf ers i'r ystadegau hyn ddechrau.
- Mae dysgwyr yn fwy amrywiol na phoblogaeth Cymru.

### Nodyn

Ceir data manylach ar y daenlen atodol ac yn nhablau StatsCymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth nad yw wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn, fel:

- Rhanbarth cartref
- Prif anhawster dysgu neu anabledd
- Mesur targed prentisiaeth
- Darparydd unigol
- Lefel uchaf o gymhwyster cyn dechrau
- Lefel rhaglen a gweithgaredd
- Oriau dysgu dan arweiniad y gweithgaredd
- Maes pwnc yr is-sector.


## Dysgwyr

Roedd 161,920 o ddysgwyr mewn addysg bellach, prentisiaethau neu dysgu cymunedol awdurdod lleol yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25.

Nid yw'r ystadegau yn yr adroddiad hwn yn cynnwys dysgwyr mewn chweched dosbarth ysgolion na phrifysgolion. Bydd ystadegau Addysg Uwch yn cael eu cyhoeddi yn yr adroddiad Myfyrwyr mewn Addysg Uwch. Mae ystadegau chweched dosbarth i'w gweld yn nhablau ‘Disgyblion’ StatsCymru.

### Dysgwyr yn ôl math o ddysgu a darparydd

Ffigur 1: Awst 2024 i Orffennaf 2025




Disgrifiad: Roedd 127,530 o ddysgwyr mewn colegau. Roedd yna 46,140 o brentisiaid, wedi’u rhannu rhwng colegau a darparwyr hyfforddiant eraill.

[Nodyn 1]: Bydd rhai dysgwyr wedi astudio gyda sawl math o ddarparydd.


Data ar StatsCymru

Mae addysg bellach yn cynnwys dysgwyr sy'n astudio Safon Uwch a chymwysterau cyffredinol eraill, yn ogystal â dysgwyr sy'n astudio cymwysterau galwedigaethol (er enghraifft cymwysterau BTEC).

Mae dysgu cymunedol awdurdod lleol yn gweithgareddau dysgu cymunedol a ariennir gan Medr ac a gynhelir yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol.

**Cynyddodd nifer y dysgwyr addysg bellach amser llawn i lefel uwch nag erioed**

Ffigur 2: Dysgwyr addysg bellach amser llawn yn ôl blwyddyn academaidd, Awst 2016 i Orffennaf 2025




Disgrifiad: Mae nifer y dysgwyr mewn addysg bellach amser llawn wedi cynyddu am y ddwy flynedd ddiwethaf.


Data ar StatsCymru

Roedd 2,085 yn fwy o ddysgwyr mewn addysg bellach amser llawn yn 2024/25 nag yn y flwyddyn flaenorol.

Mae data dros dro ar gyfer chwarter cyntaf 2025/26 yn dangos bod y duedd o gynnydd wedi parhau. Cofnodwyd 51,340 (p) o ddysgwyr addysg bellach amser llawn yn Ch1 2025/26 o gymharu â 49,485 yn Ch1 2024/25. Mae'r cyfansymiau ar gyfer Ch1 2024/25 yn cynrychioli 99% o'r dysgwyr addysg bellach amser llawn ar gyfer y flwyddyn honno.

**Mae nifer y dysgwyr rhan-amser wedi lleihau, am y tro cyntaf ers 4 blynedd**

Ffigur 3: Dysgwyr mewn addysg bellach ran-amswer yn ôl blwyddyn academaidd, Awst 2016 i Orffennaf 2025




Disgrifiad: Roedd nifer y dysgwyr mewn addysg bellach ran-amser yn 2024/25 yn is nag yn y 2 flynedd flaenorol.


Data ar StatsCymru

Roedd 5,445 yn llai o ddysgwyr mewn addysg bellach ran-amser yn 2024/25 nag yn y flwyddyn flaenorol.

Yn y De-ddwyrain a'r Canolbarth ac ymhlith dysgwyr o dan 40 oed y digwyddodd y lleihad yn nifer y dysgwyr rhan-amser yn bennaf.

**Mae'r niferoedd ar gyfer dysgu cymunedol awdurdod lleol yn uwch nag yr oeddent cyn y pandemig**

Ffigur 4: Dysgwyr dysgu cymunedol awdurdod lleol yn ôl blwyddyn academaidd, Awst 2016 i Orffennaf 2025





Disgrifiad: Mae nifer y dysgwyr sy'n ymgymryd â dysgu cymunedol awdurdod lleol yn debyg i'r nifer y llynedd.

Data ar StatsCymru

Roedd 2,890 yn fwy o ddysgwyr yn ymgymryd â dysgu cymunedol awdurdod lleol yn 2024/25 o gymharu â 2018/19.

**Roedd nifer y prentisiaethau a ddechreuwyd ar y lefel isaf ers i'r ystadegau hyn ddechrau**

Ffigur 5: Prentisiaethau a ddechreuwyd yn ôl blwyddyn academaidd, Awst 2012 i Orffennaf 2025




Disgrifiad: Mae nifer y prentisiaethau a ddechreuwyd wedi lleihau am ddwy flynedd yn olynol.


Data ar StatsCymru

Cyllideb blwyddyn ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer prentisiaethau oedd £139m yn 2023-24 a £144m yn 2024-25 (Ffynhonnell: Dyraniadau cyllid Medr ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26). Yn flaenorol, roedd cyllid ychwanegol ar gael ar gyfer prentisiaethau o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (£43m yn 2023-24 Dyraniadau cyllid Medr ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26). Daeth hyn i ben erbyn blwyddyn ariannol 2024-25.

## Math o ddysgu a wnaed

**Mae addysg bellach amser llawn lefel 2 wedi bod yn cynyddu'n gyson**

Ffigur 6: Rhaglenni addysg bellach amser llawn mewn colegau yn ôl lefel a blwyddyn academaidd, Awst 2016 i Orffennaf 2025




Disgrifiad: Mae rhaglenni lefel 1 wedi bod yn cynyddu'n ôl yn dilyn lleihad yn 2021/22.


[Noder]: Nid yw rhaglenni Mynediad i Addysg Uwch na rhaglenni ar lefelau eraill wedi cael eu cynnwys yn y siart.

Data yn Nhabl 1.1 y daenlen gysylltiedig

Roedd 3,530 yn fwy o raglenni addysg bellach amser llawn lefel 2 yn 2024/25 nag yn 2016/17. Yn ystod yr un cyfnod, mae nifer y rhaglenni lefel 3 wedi lleihau 1,150, mae nifer y rhaglenni lefel mynediad wedi lleihau 550, ac mae nifer y rhaglenni Mynediad i Addysg Uwch wedi lleihau 445. Roedd 185 yn fwy o raglenni lefel 1.

**Mae rhaglenni sylfaen amser llawn wedi cynyddu**

Ffigur 7: Rhaglenni addysg bellach amser llawn mewn colegau yn ôl math a blwyddyn academaidd, Awst 2023 i Orffennaf 2025




Disgrifiad: Mae nifer y rhaglenni Safon Uwch a gaiff eu hastudio mewn colegau wedi lleihau.

[Nodyn]: Ceir nifer fach o raglenni eraill sydd heb eu cynnwys yn y siart.

Data yn Nhabl 1.1 ar y daenlen atodol

Cynnyddodd nifer y rhaglenni sylfaen amser llawn o 3,120 yn 2023/24 i 3,830 yn 2024/25.

Mae'r cynnydd mewn rhaglenni sylfaen, a rhaglenni galwedigaethol lefel 1 a 2, yn llawer mwy na'r lleihad mewn rhaglenni UG a Safon Uwch.


Casgliad o gymwysterau y mae dysgwr yn eu hastudio yw rhaglen. Rhaglen Safon Uwch nodweddiadol fyddai 3 Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru.

Mae rhaglenni galwedigaethol yn canolbwyntio ar ddysgu ar gyfer galwedigaeth benodol. Er enghraifft, rhaglen Lefel 1 mewn Peirianneg Fodurol.

Nid yw prentisiaethau wedi'u cynnwys yn y ffigurau hyn.

**Mae data dros dro ar gyfer 2025/26 yn dangos bod niferoedd rhaglenni galwedigaethol lefel 3 yn cynyddu'n ôl**

Ffigur 8: Rhaglenni addysg bellach amser llawn mewn colegau yn ôl math a blwyddyn academaidd, Awst i Hydref 2025 ac Awst i Hydref 2026 (dros dro)




Disgrifiad: Roedd mwy o raglenni addysg bellach amser llawn yn chwarter 1 2025/26 nag a oedd yn chwarter 1 2024/25, ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o raglenni (ac eithrio Safon UG, Safon Uwch, a Ddysgu Cyflymach).

[Nodyn]: Ceir nifer bach o raglenni eraill nad ydynt wedi cael eu cynnwys yn y siart.

Data yn Nhabl 8.1 ar y daenlen atodol

Mae data dros dro yn awgrymu bod y duedd o gynnydd mewn rhaglenni lefel 1 a lefel 2 yn parhau yn 2025/26. Fodd bynnag, ceir cynnydd mewn rhaglenni galwedigaethol lefel 3 hefyd.

### Y prentisiaethau mwyaf cyffredin yw Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Ffigur 9: Y 5 uchaf o blith rhaglenni amser llawn a gyflawnwyd, neu brentisiaethau a ddechreuwyd yn ôl math o ddysgu, Awst 2024 i Orffennaf 2025

| Addysg bellach llawn-amser | Rhaglenni | Dechreuadau prentisiaeth | Rhaglenni |
|---|---|---|---|
| 3 UG gyda BSCU | 3,150 | Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2 | 2,895 |
| Adeiladu Lefel 2 (Sylfaen) | 2,895 | Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3 | 1,785 |
| Adeiladu Lefel 1 | 1,950 | Gweithgynhyrchu Peirianneg Lefel 3 | 745 |
| 3 A2 gyda BSCU | 1,830 | Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 3 | 730 |
| Astudiaethau Sylfaen Lefel 1 | 1,610 | Rheoli Lefel 4 | 720 |

Disgrifiad: Y rhaglen addysg bellach amser llawn fwyaf cyffredin yw astudio 3 Safon UG ynghyd â Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch.


Data yn Nhablau 1.2 a 4.2 ar y daenlen atodol

Y 5 prentisiaeth uchaf a ddechreuwyd sydd i gyfrif am dros draean o'r holl gyrsiau prentisiaeth a ddechreuwyd.

5 rhaglen sydd i gyfrif am bumed rhan o raglenni addysg bellach amser llawn.

## Bu lleihad mewn gweithgareddau cymwysterau Gwyddoniaeth a Mathemateg

Ffigur 10: Cymwysterau a reoleiddir fesul maes pwnc sector a blwyddyn academaidd, Awst 2023 i Orffennaf 2025




Disgrifiad: Y meysydd pwnc sector mwyaf cyffredin yw Paratoi am Fywyd a Gwaith; ac Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal.

[Nodyn] Achoswyd y lleihad mewn Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith gan newid yn strwythur Bagloriaeth Cymru. Yn flaenorol, byddai'r cymhwyster yn cael ei gofnodi fel dau weithgaredd – Bagloriaeth Cymru yn ei chyfanrwydd, a'r Dystysgrif Her Sgiliau fel cymhwyster ar wahân. Mae un cymhwyster wedi cael ei gyflwyno yn lle hyn, sef Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch.

Data yn Nhabl 2.1 ar y daenlen atodol


Roedd y lleihad mewn Gwyddoniaeth a Mathemateg yn rhannol o ganlyniad i leihad o 19% mewn TGAU Mathemateg (a fydd yn cael ei ailsefyll gan amlaf).

Bu lleihad cyffredinol o 5% yn nifer y cymwysterau a reoleiddir a gafodd eu hastudio. Y prif reswm dros hyn oedd y lleihad mewn niferoedd dysgwyr prentisiaeth a dysgwyr rhan-amser.

Bu cynnydd mewn cymwysterau ym meysydd Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig; Ieithoedd, Llenyddiaeth a Diwylliant; a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, tra bu lleihad mewn cymwysterau ym mhob maes pwnc arall.

**Bu lleihad mewn prentisiaethau ar bob lefel**

Ffigur 11: Prentisiaethau a ddechreuwyd yn ôl lefel a blwyddyn academaidd, Awst 2014 i Orffennaf 2025




Disgrifiad: Dechreuwyd 8,990 o brentisiaethau lefel 3, 6,580 o brentisiaethau sylfaen, a 3,280 o brentisiaethau uwch yn 2024/25.


[Nodyn] O fis Medi 2022 ymlaen, mae pob prentisiaeth adeiladu'n dechrau ar lefel 3 yn hytrach na lefel 2.

Data ar StatsCymru

## Cyfrwng Cymraeg

### Mae mwy o ddysgwyr yn astudio o leiaf yn rhannol yn Gymraeg

Ffigur 12: Canran y gweithgareddau dysgu a gynhaliwyd yn ddwyieithog neu yn Gymraeg, yn ôl math o ddysgu a blwyddyn academaidd, Awst 2016 i Orffennaf 2025




Disgrifiad: Roedd 48% o prentisiaeth yn cael eu cyflwyno o leiaf yn rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Data ar StatsCymru


Roedd mwyafrif helaeth (84%) y gweithgareddau a astudiwyd o leiaf yn rhannol yn Gymraeg yn cynnwys "ychydig" o ddysgu cyfrwng Cymraeg. Roedd 8% yn cael eu hastudio'n ddwyieithog, 6% gyda chryn dipyn o Gymraeg, a dim ond 1% a astudiwyd yn gyfan gwbl drwy'r Gymraeg.

Mae’r cynnydd mewn dysgu cyfrwng Cymraeg yn deillio bron yn llwyr o gynnydd yn y gweithgareddau hyn sy'n cynnwys "ychydig" o Gymraeg.

Mae tudalennau canllawiau a gwasanaethau LLWR yn cynnwys gwybodaeth am sut y dylid cofnodi swm yr astudio cyfrwng Cymraeg.

### Mae nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n ymgymryd â gweithgareddau sy'n cynnwys 'cryn dipyn' o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu

Ffigur 13: Canran y dysgu cyfrwng Cymraeg a ddarparwyd mewn gweithgareddau dysgu a gyflawnwyd gan siaradwyr Cymraeg rhugl, yn ôl blwyddyn academaidd, Awst 2018 i Orffennaf 2025




Disgrifiad: Mae canran y gweithgareddau dysgu a gyflawnir gan siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n cynnwys ychydig o ddysgu cyfrwng Cymraeg wedi dyblu dros y 6 blynedd diwethaf.

Data ar StatsCymru

Cyflwynwyd dros 1 o bob 5 o weithgareddau a gyflawnwyd gan siaradwyr Cymraeg rhugl yn ddwyieithog. Ond mae hyn yn is na thair blynedd yn ôl.

Mae canran y siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n ymgymryd â weithgareddau yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg ar ei hisaf ers 2017/18.


I raddau helaeth, o fewn cymwysterau a thiwtorialau Sgiliau Hanfodol a gynhelir gan Grŵp Llandrillo Menai y gwelwyd y cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n ymgymryd â gweithgareddau sy'n cynnwys cryn dipyn o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

# Demograffeg

## Oedran

### Mae pobl yn astudio drwy gydol eu hoes

Ffigur 14: Dysgwyr fesul 1,000 o bobl yng Nghymru yn ôl oedran a math o ddysgu, Awst 2024 i Orffennaf 2025




Disgrifiad: Roedd y rhan fwyaf o'r dysgwyr mewn addysg bellach amser llawn yn 16 neu'n 17 oed. Mae prentisiaethau ar eu huchaf ymhlith dysgwyr 18 oed, ond ceir llawer o ddysgwyr hŷn. Dysgwyr yn eu 30au sy'n dilyn addysg bellach ran-amser a dysgu cymunedol awdurdod lleol gan amlaf.


Data yn Nhabl 3.1 ar y daenlen atodol.

Aeth dros i 1 o bob 2 o bobl 16 oed yng Nghymru i addysg bellach amser llawn yn 2024/25.

## Rhywedd

### Mae dysgwyr benywaidd yn cyflawni tua 1 o bob 4 o gymwysterau STEM

Ffigur 15: Canran y cymwysterau a reoleiddir a gyflawnwyd fesul rhywedd a maes pwnc sector, Awst 2024 i Orffennaf 2025




Disgrifiad: Mae mwyafrif y cymwysterau yn y rhan fwyaf o feysydd pwnc sector yn cael eu cyflawni gan ddysgwyr benywaidd. Dysgwyr gwrywaidd yw mwyafrif llethol y dysgwyr sy'n ymgymryd â chymwysterau ym meysydd Technolegau Peirianneg a Gweithgynhyrchu; Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig; a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.

[Nodyn 1] Diffinnir Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) fel Gwyddoniaeth a Mathemateg; Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu; Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig; Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid; Meddygaeth a Deintyddiaeth; Nyrsio a Phynciau a Galwedigaethau Cysylltiedig â Meddygaeth; Ymarferwyr TGCh; a Daearyddiaeth.


[Nodyn 2] Diffinnir y Dyniaethau fel y Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi; Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth; ac Ieithoedd, Llenyddiaeth a Diwylliant.

Data yn Nhabl 2.1 ar y daenlen atodol.

## Cefndir ethnig

### Mae dysgwyr yn fwy amrywiol na phoblogaeth Cymru

Ffigur 16: Dysgwyr fesul 1,000 o bobl yng Nghymru yn ôl cefndir ethnig a math o ddysgu, Awst 2024 i Orffennaf 2025





Disgrifiad: Mae pobl o gefndir Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd yn fwy tebygol o ymgymryd â phrentisiaethau, addysg bellach neu ddysgu oedolion yn y gymuned.

Data yn Nhabl 3.2 ar y daenlen atodol.

## Amddifadedd

### Mae dysgwyr yn fwy tebygol o fyw mewn cymdogaethau amddifadus

Ffigur 17: Canran y dysgwyr o bob cwintel ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC), yn ôl math o ddysgu, Awst 2024 i Orffennaf 2025




Disgrifiad: Roedd 28% o ddysgwyr addysg bellach amser llawn yn byw yn y 20% o gymdogaethau mwyaf amddifadus yng Nghymru. Dim ond 14% oedd yn byw yn y 20% o gymdogaethau lleiaf amddifadus.


Data ar StatsCymru

Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys data chweched dosbarth mewn ysgolion, na dysgu a ariennir yn breifat. Roedd y dadansoddiad ad-hoc Dysgwyr unigryw mewn darpariaeth dysgu ôl-16 yn ôl degradd amddifadedd, Awst 2021 i Orffennaf 2022 yn dangos bod dysgwyr y chweched dosbarth yn llawer llai tebygol o fyw mewn cymdogaethau amddifadus.

## Anhawster neu amhariad dysgu

### Mae gan 1 o bob 6 dysgwr anhawster dysgu neu anabledd, sef y mwyaf ers i'r ystadegau hyn ddechrau

Ffigur 18: Canran y dysgwyr sydd ag anhawster neu anabledd dysgu hunan-gofnodedig, yn ôl blwyddyn academaidd, Awst 2024 i Orffennaf 2025




Disgrifiad: Mae nifer y dysgwyr ag anhawster neu anabledd dysgu hunangofnodedig wedi bod yn cynyddu.

Data ar StatsCymru

Bu lleihad yn nifer y dysgwyr ag anhawster neu anabledd dysgu hunangofnodedig yn ystod y pandemig, ond mae wedi cynyddu ers hynny.

# Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Gweler y ddogfen atodol, *Ansawdd a methodoleg: Addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol* am wybodaeth fanwl.

## Yr hyn sydd wedi newid

Os bydd gennych unrhyw adborth ar y newidiadau hyn, cysylltwch ag ystadegau@medr.cymru.

### Cyfrif dysgwyr

Mae'r dull o gyfrif niferoedd dysgwyr wedi cael ei wella. Mae'r mater yn ymwneud â sut i gyfrif dysgwyr a astudiodd sawl math o ddysgu mewn blwyddyn.

Yn flaenorol, byddai dau fesur yn cael eu defnyddio: dysgwyr unigryw a dysgwyr darparwyr. Byddai dysgwyr unigryw yn cyfrif dysgwr unwaith ar gyfer yr holl ddysgu. Byddai dysgwyr darparwyr yn cyfrif dysgwr unwaith fesul darparwr y bu'n ei fynychu.

Ar gyfer y naill fesur a'r llall, pe bai dysgwyr yn astudio sawl math o ddysgu, dim ond o dan un ohonynt y byddai'n cael ei gyfrif. Byddai prentisiaethau'n cael eu blaenoriaethu, ac yna addysg bellach amser llawn.

Mae dysgwyr unigryw a dysgwyr darparwyr wedi cael eu disodli gan un cyfanswm dysgwyr. Yn y mesur newydd hwn, caiff dysgwyr eu cyfrif unwaith ym mhob rhes mewn tabl neu ystadegyn. Er enghraifft, byddai dysgwr yn cael ei gyfrif unwaith ar gyfer “cyfanswm y dysgwyr”, ond byddai hefyd yn cael ei gyfrif o dan bob math o ddysgu a wnaeth, ac o dan bob darparwr y bu'n ei fynychu.

Ffigur 19: Cymhariaeth o'r dulliau ar gyfer cyfrif dysgwyr yn ôl math o ddarpariaeth, Awst 2023 i Orffennaf 2024

| Math o ddysgu | Dull blaenorol (dysgwyr unigryw) | Dull newydd (dysgwyr)) |
|---|---:|---:|
| Prentisiaethau | 47,855 | 47,910 |
| Addysg bellach amser llawn | 47,090 | 47,725 |
| Addysg bellach ran-amser | 61,555 | 63,315 |
| Dysgu cymunedol awdurdod lleol | 13,035 | 13,035 |

### StatsCymru

Mae tablau StatsCymru wedi cael eu symud o hen wefan StatsCymru i'r wefan newydd.

Rydym wedi achub ar y cyfle i symleiddio a safoni nifer y tablau sydd ar gael.

Rydym wedi cynyddu nifer y newidynnau ym mhob tabl. Mae rhai tablau a oedd yn y daenlen gysylltiedig bellach wedi'u cynnwys yn nhablau StatsCymru ac wedi cael eu dileu o'r daenlen.

Os bydd angen i chi gael data nad ydynt ar gael i chi mwyach, cysylltwch ag ystadegau@medr.cymru a byddwn yn anfon y data perthnasol atoch. Gallwn hefyd ystyried ychwanegu unrhyw dablau sydd ar goll.

## Data dros dro ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol

Mae data dros dro ar gyfer dysgu yn chwarter 1 (Awst i Hydref) yn y flwyddyn academaidd bresennol wedi cael eu hychwanegu at yr adroddiad hwn.

Mae'r sylwebaeth yn yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am addysg bellach amser lla,wn lle mai canran y rhaglenni a gofnodwyd yn chwarter 1 oedd 99% yn 2024/25. Mae gan fathau eraill o ddarpariaeth ganran is o ddysgwyr a rhaglenni yn chwarter 1.

Mae data dros dro ar brentisiaethau ar gael yn [Rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd, Awst i Hydref 2025](#).

Mewn data dros dro, dim ond dyddiad dechrau a dyddiad gorffen y rhaglen a ddefnyddir i weld a yw wedi bod yn cael ei chynnal yn ystod y flwyddyn academaidd berthnasol. Mewn data nad yw dros dro, defnyddir gwybodaeth sy'n ymwneud â phryd y bydd dysgwr yn dechrau ar ei weithgareddau dysgu o fewn rhaglen. Y rheswm dros hyn yw bod y data ar weithgareddau yn aml yn cael eu cofnodi ar Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru yn hwyrach na'r data ar raglenni.

Caiff y data terfynol ar gyfer blwyddyn lawn 2025/26 eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2027.

## Niferoedd rhaglenni rhan-amser

Mae data ar nifer y rhaglenni rhan-amser a gynhaliwyd wedi cael eu dileu.

Gall rhaglenni rhan-amser amrywio'n fawr o ran cyfanswm y gweithgareddau dysgu a gynhelir. Mae'r cyllid yn seiliedig ar yr oriau a ddarparwyd a gellir cofnodi'r oriau hynny ar draws nifer o raglenni, ond mae'r cyllid ar gyfer addysg bellach amser llawn yn seiliedig ar gyfanswm nifer y rhaglenni a gynhaliwyd. Nid oedd cyfrif nifer y rhaglenni'n cynrychioli faint o ddysgu a oedd yn digwydd yn effeithiol.

Rydym yn bwriadu cyflwyno mesur newydd sy'n seiliedig ar nifer yr oriau o ddysgu a gwblhawyd yn lle niferoedd y rhaglenni rhan-amser.

## Mathau eraill o ddysgu seiliedig ar waith

Mae'r categori ‘Mathau eraill o ddysgu seiliedig ar waith’ wedi cael ei ddileu o'r data ar addysg bellach, prentisiaethau a dysgu cymunedol awdurdod lleol.

Mae tabl ar wahân (6.1) wedi cael ei greu yn y daenlen gysylltiedig sy'n cynnwys gwybodaeth am nifer y rhaglenni dysgu seiliedig ar waith eraill.

Mae ‘Mathau eraill o ddysgu seiliedig ar waith’ yn cynnwys cymwysterau pontio ar gyfer pobl sy'n gweithio gyda phlant mewn lleoliadau chwarae neu ofal plant. Ni chaiff y gweithgareddau dysgu hyn eu hariannu gan Medr. Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw hyn o hyd.

## Data newydd

Mae data wedi cael eu hychwanegu ar gyfer:

- Prentisiaethau iau
- Cymariaethau'r boblogaeth dysgwyr yn ôl cefndir ethnig

## Gwella ystadegau dysgu cymunedol awdurdod lleol

Cafodd data ar ddysgu cymunedol awdurdod lleol eu gohirio y llynedd am i ddarparwr roi gwybod bod gwallau sylweddol yn y data a gyflwynwyd ganddo i Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) ar gyfer 2023/24.

Gwnaethom ymchwilio i'r posibilrwydd bod y mater yn effeithio ar awdurdodau lleol eraill. Cafodd nifer y gweithgareddau dysgu a gynhaliwyd gan bob darparwr ei gymharu â'r lefelau cyllid, a chysylltwyd ag awdurdodau lleol â phatrymau afreolaidd. Ni ddaethpwyd o hyd i broblemau.

Cywirwyd y data ar gyfer 2023/24, ac ni chafodd patrymau tebyg eu darganfod yn 2024/25.

Ariennir Dysgu Cymunedol Awdurdodau Lleol drwy'r Grant Dysgu Cymunedol. Yn y gorffennol bu'r grant yn ffynhonnell cymharol fach o gyllid. Yn wahanol i fathau eraill o ddysgu, ni chaiff data'r LLWR eu defnyddio i ddyrannu na dilysu'r dysgu a ddarperir drwy'r grant hwn. O ganlyniad i hyn, ceir mwy o botensial am broblemau'n gysylltiedig ag ansawdd data na fyddent yn effeithio ar addysg bellach na dysgu seiliedig ar waith.

O hyn ymlaen, bydd y ffordd y caiff cyllid ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned ei fonitro'n dibynnu ar y data y bydd darparwyr yn eu cyflwyno drwy system Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru yn unig. Mae hyn yn newid sylweddol: cyn hyn, ar gyfer adroddiadau ar fesurau perfformiad y mae data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru wedi cael eu defnyddio'n bennaf ond, o 2026/27 ymlaen, byddant yn cael dylanwad uniongyrchol ar adroddiadau ac archwiliadau cyllid diwedd blwyddyn.

Mae'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2025 a mis Gorffennaf 2026 yn gweithredu fel cyfnod pontio tuag at hyn.

Mae rhai newidiadau wedi dechrau'n barod, gan gynnwys gwelliannau i'r ffordd y caiff data eu casglu a'u gwirio, ac mae canllawiau manwl wedi cael eu cyhoeddi yn nogfen y fanyleb ar gyfer rhaglenni dysgu oedolion yn y gymuned. Bydd diweddariadau pellach yn parhau yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwneud y system yn fwy cywir a chyson. Mae'r cod cyllid ar gyfer y Grant Dysgu Cymunedol yn cael ei ddatblygu i gyfateb yn uniongyrchol i'r cod cyllid addysg bellach ar gyfer darpariaeth ran-amser.

Hefyd, mae'r dyraniad cyllid wedi cael ei fapio i rychwanatu'r flwyddyn academaidd yn hytrach na'r flwyddyn ariannol fel o'r blaen, er mwyn sicrhau cysondeb pellach rhwng y Grant Dysgu Cymunedol a'r ffordd y caiff addysg ôl-16 ran-amser ei darparu'n gyffredinol.

Gan y bydd y gallu i adhawlio yn y dyfodol yn dibynnu ar y wybodaeth a gyflwynir i Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, mae gan ddarparwyr gymhelliant llawer cryfach i sicrhau bod eu data'n gyflawn, yn gywir, ac yn cael eu cyflwyno ar amser.

Po agosaf yw'r cysylltiad rhwng data a chyllid, pwysicaf yw hi i bawb sicrhau bod y data'n gywir – ac felly rydym yn disgwyl y bydd ansawdd cyffredinol data yn gwella.

## Datganiad Cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Caiff ein harferion ystadegol eu rheoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR). Mae'r OSR yn gosod y safonau ar gyfer dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer Ystadegau y dylai holl gynhyrchwyr ystadegau swyddogol gadw atynt.

Caiff ein holl ystadegau eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau, i gynyddu eu dibynadwyedd, eu hansawdd a'u gwerth. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Natganiad Cydymffurfiaeth Medr yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Mae'r ystadegau swyddogol  hyn yn dangos y safonau a ddisgwylir o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus yn y ffyrdd canlynol.

### Dibynadwyedd

Mae'r ystadegau hyn wedi'u cyhoeddi yn unol â Datganiad Cydymffurfiaeth Medr a'r polisi ar weld ystadegau swyddogol cyn eu rhyddhau.

### Ansawdd

Daw'r data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a gyflwynir gan ddarparwyr dysgu. Defnyddir y data hyn hefyd i benderfynu ynghylch cyllid i ddarparwyr dysgu, ac maent yn destun archwiliad.

Pan gyflwynir y data, rhaid iddynt fodloni rhai rheolau dilysu. Pan gaiff yr ystadegau eu cynhyrchu cynhelir gwiriadau ansawdd gan yr ystadegwyr.

### Gwerth

Cynhyrchir yr ystadegau hyn i roi cipolwg ar y ddarpariaeth dysgu yng Nghymru. Cânt eu defnyddio er mwyn monitro a gwerthuso'r sectorau dysgu oedolion, addysg bellach a dysgu yn y gwaith.

## Newid statws ystadegau achrededig

Cyhoeddwyd yr ystadegau hyn yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru fel Ystadegau Gwladol (a elwir bellach yn Ystadegau Swyddogol Achrededig). Gan fod yr ystadegau bellach yn cael eu cyhoeddi gan sefydliad newydd, mae'r statws Ystadegau Swyddogol Achrededig wedi'i ddileu dros dro.

Mae Medr wedi parhau â systemau a phrosesau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhyrchu’r ystadegau, ac mae’r ystadegwyr sy’n cynhyrchu’r ystadegau’n cynnwys ystadegwyr a gynhyrchodd ystadegau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol yn Llywodraeth Cymru.

Bydd y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR) yn asesu'r prosesau sydd ar waith ym Medr fel cynhyrchydd ystadegau swyddogol. Bydd yr OSR yn asesu a yw'r ystadegau'n bodloni'r gofynion ar gyfer Ystadegau Swyddogol Achrededig.

## Ystadegau cysylltiedig

Cyhoeddwyd adroddiadau cynharach yn y gyfres hon ar llyw.cymru.

Mae Myfyrwyr mewn addysg uwch: Awst 2024 i Orffennaf 2025 yn cynnwys gwybodaeth debyg ar gyfer Addysg Uwch.

Mae Rhaglenni dysgu prentisiaethau a ddechreuwyd: Awst i Hydref 2025 yn cynnwys dangosfwrdd ac arnod ddadansoddiadau manwl o raglenni prentisiaeth a ddechreuwyd.

Caiff Mesurau deilliannau dysgwyr ar gyfer prentisiaethau a dysgu oedolion: Awst 2024 i Orffennaf 2025 ei gyhoeddi ar medr.cymru ar 18 Mawrth 2026.

Mae Mesurau perfformiad cyson dysgu ôl-16 (cyflawniad), Awst 2024 i Orffennaf 2025 yn cynnwys deilliannau ar gyfer addysg bellach a bydd yn cael ei gyhoeddi ar medr.cymru yn ddiweddarach ar 10 Mawrth 2026.

## Y diweddariad nesaf

**Dyddiad:** Mawrth 2027.

Cyfnod a drafodir: Awst 2025 i Orffennaf 2026.

Mae’n bosibl na fydd y diweddariad nesaf i’r ystadegau hyn ar yr un ffurf â’r adroddiad hwn.

## Gwybodaeth gyswllt

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn.

Gellir anfon adborth, cwestiynau, a cheisiadau am ddata pellach drwy e-bost i: ystadegau@medr.cymru

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**